Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 8 Tachwedd 2012**

Amser:
**09:15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Polisi: Claire Morris**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8148 / 029 2089 8025
PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Graddau TGAU Saesneg Iaith Haf 2012 (9.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 9)

Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Chris Tweedale, Cyfarwyddwr - Grŵp Ysgolion a Phobl Ifanc

Cassy Taylor, Pennaeth Rheoleiddio Cymwyseddau Cyffredinol

**Egwyl (10.30 - 10.45)**

### 3. Materion Iechyd Plant (10.45 - 12.00) (Tudalennau 10 - 14)

Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol

Dr Heather Payne, Uwch-Swyddog Meddygol, Iechyd Mam a Phlentyn

# Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Ailraddio canlyniadau TGAU Saesneg Iaith CBAC yng Nghymru

**Pwrpas**

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth gefndirol am ailraddio canlyniadau TGAU Saesneg Iaith CBAC yng Nghymru. Mae'n ategu'r datganiad llafar a wnaed gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar 25 Medi a'r adroddiad rheoleiddiol a gyhoeddwyd ar 10 Medi ac y gwnaed yr argymhelliad i ailraddio ynddo.

**Cyflwyniad**

1. Mae Deddf Addysg 1997 (fel y'i diwygiwyd), ymysg pethau eraill, yn rhoi i Weinidogion Cymru swyddogaethau mewn perthynas â chymwysterau. Er pan ddiddymwyd ACCAC yn 2006, mae'r swyddogaethau hynny wedi eu harfer gan Weinidogion Cymru. Arferir y swyddogaethau o ddydd i ddydd, ar ran Gweinidogion Cymru, gan swyddogion yn yr hyn a elwir bellach yr Adran Addysg a Sgiliau.

2. Ar 11 Medi 2012, cymerais y cam digynsail o ddefnyddio'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan Ddeddf 1997 i gyfarwyddo CBAC i ailraddio'r cymhwyster TGAU Saesneg Iaith ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru. Wrth wneud hynny, roeddwn yn gweithredu yn unol â chyngor fy swyddogion yn eu hadroddiad *TGAU Saesneg Iaith 2012 – ymchwiliad i'r canlyniadau ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru*, a gyhoeddwyd gennyf y diwrnod blaenorol.

3. Gerbron cyfarfod llawn ar 25 Medi 2012, gwneuthum ddatganiad llafar i ddiweddaru Aelodau'r Cynulliad ynglŷn â'r cam a gymerwyd; ac ar 26 Medi ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ataf i'm gwahodd i drafod y mater ymhellach gyda'r Pwyllgor, mewn gwrandawiad ar 8 Tachwedd. Yn benodol, gofynnwyd imi ddarparu gwybodaeth bellach am y trafodaethau[1] a ddigwyddodd rhwng fy swyddogion, CBAC ac Ofqual mewn perthynas â newidiadau yn ffiniau'r graddau ar gyfer TGAU Saesneg Iaith, a'r opsiynau a oedd ar gael i mi.

4. Rwyf yn darparu gwybodaeth bellach isod ynglŷn â'r trafodaethau hynny

**Y cyd-destun**

5. Yn hanesyddol, mae'r cymwysterau TGAU a Lefel A wedi bod yn gymwysterau ar gyfer tair gwlad. Hynny yw, arferai dysgwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sefyll yr un arholiadau ac asesiadau. Ar hyn o bryd, mae pum prif sefydliad dyfarnu (sef y 'byrddau arholi' fel y'u gelwir yn gyffredin) yn cynnig

[1] Yng ngeiriau'r gwahoddiad, *"discussions that took place between [my] officials, the WJEC and Ofqual regarding the changes to the [grade boundaries] for GCSE English Language and the options that were available to [me]".*

cymwysterau TGAU a Lefel A: CBAC, AQA, Edexcel, OCR a CCEA. Roedd dysgwyr ym mhob un o'r tair gwlad yn rhydd i sefyll, ac yn wir, wedi sefyll, arholiadau TGAU a Lefel A gydag unrhyw un o'r byrddau hyn – er bod CCEA, y bwrdd arholi sy'n gweithredu o Ogledd Iwerddon, wedi cyhoeddi eleni na fydd yn parhau i gynnig ei gymwysterau TGAU a Lefel A i ddysgwyr yn Lloegr.

6. Er cyfeirio'n aml at CBAC fel y "Bwrdd Cymreig" mae mwy na hanner nifer cyffredinol yr ymgeiswyr am gymwysterau TGAU a Lefel A CBAC yn dod o Loegr. Mae'r gyfran yn amrywio o bwnc i bwnc; ond yn achos TGAU Saesneg Iaith eleni, roedd dros 70% o ymgeiswyr CBAC yn dod o Loegr.

7. Oherwydd eu natur fel cymwysterau ar gyfer tair gwlad, mae'r cymwysterau hyn wedi bod yn rhywfaint o her erioed i reoleiddwyr ym mhob un o'r gwledydd – yn enwedig ynglŷn â rhannu cyfrifoldebau. Mae penderfyniadau a wneir mewn un wlad yn effeithio'n uniongyrchol ar ymgeiswyr yn y ddwy wlad arall. O ganlyniad, er bod y baich rheoleiddio wedi ei rannu i raddau, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn arwain wrth reoleiddio'r cymwysterau a gynigid gan CBAC, roedd yn arferol hefyd i swyddogion rheoleiddio o'r tair gwlad ddod at ei gilydd i drafod gofynion, penderfyniadau neu weithredoedd rheoleiddio, cyn eu cyfleu i sylw'r byrddau arholi. Yr arfer nodweddiadol wedyn oedd cyfathrebu â'r byrddau arholi mewn llythyrau a oedd yn dwyn logos pob un o'r tri chorff rheoleiddio – er mwyn hyrwyddo cysondeb. Oherwydd maint a galluoedd cymharol Ofqual, roedd yn arferol i'r llythyrau 'tair gwlad' hyn gael eu dyroddi gan Ofqual, ar ran y tri rheoleiddiwr.

8. Digwyddodd y trafodaethau rhwng AdAS ac Ofqual ac, i raddau llai, y trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a CBAC, ynglŷn â TGAU Saesneg Iaith, yn ystod tri phrif gyfnod. Y cyfnodau oedd—

i) cyn penderfynu ar y canllawiau adrodd a'u dyroddi i'r byrddau arholi gan Ofqual ar 25 Mehefin 2012;
ii) yn dilyn y cyfarfod dyfarnu ar 27 Gorffennaf 2012 a chyn cyhoeddi'r canlyniadau TGAU dros dro ar 23 Awst 2012; a
iii) yn dilyn cyhoeddi'r canlyniadau TGAU dros dro a chyn rhoi'r Cyfarwyddyd i CBAC i ailraddio'r cymhwyster ar 11 Medi.

**Y trafodaethau cyn dyroddi'r canllawiau adrodd**

9. Roedd paragraffau 24 i 33 o'r adroddiad a gyhoeddais ar 10 Medi yn amlinellu cefndir yr arfer o ddefnyddio rhagfynegyddion wrth benderfynu ar ffiniau'r graddau yn y cymwysterau TGAU a Lefel A. Yn fyr, roedd y fethodoleg honno wedi ei mabwysiadu yn wreiddiol er mwyn sicrhau nad oedd ymgeiswyr am gymhwyster newydd neu ddiwygiedig yn dioddef anfantais, nac yn cael mantais, annheg drwy fod yn perthyn i'r cohort cyntaf i gymryd y cymhwyster hwnnw (cyfeirir at hyn yn nes ymlaen yn y papur hwn fel yr "egwyddor canlyniadau cymaradwy"). Mae'r fethodoleg hefyd wedi ei chynllunio i sicrhau nad yw ymgeiswyr cyffelyb o ran gallu yn dioddef anfantais, nac yn cael mantais, drwy sefyll eu harholiadau gydag unrhyw un bwrdd arholi yn hytrach nag un arall.

10. Defnyddiwyd y fethodoleg rhagfynegyddion ar draws pob un o’r byrddau arholi am y tro cyntaf pan gyflwynwyd y gyfres bresennol o gymwysterau Lefel A – a’r amcan bryd hynny oedd cynnal perthynas sefydlog rhwng perfformiad cohort yn yr arholiadau TGAU a’i berfformiad yn yr arholiadau Lefel A. Mae’n wir bod cyflwyno’r fethodoleg honno ar gyfer lefel A wedi ei herio unwaith neu ddwy yng Nghymru: codwyd pryderon gan swyddogion Llywodraeth Cymru a CBAC ynghylch gwahaniaethau yn y cohortau ac yn yr arholiadau TGAU a sefir yn y gwahanol wledydd. Ar gais Llywodraeth Cymru a CBAC, cytunodd y tri rheoleiddiwr i gomisiynu’r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER) i ymchwilio i ddibynadwyedd y dull. Yng ngoleuni canfyddiadau’r ymchwil hwnnw, llwyddodd swyddogion Llywodraeth Cymru a CBAC i liniaru llymder y goddefiannau adrodd. Fodd bynnag, er gwaethaf rhai amheuon, cytunir yn gyffredinol bod y fethodoleg hon yn gymwys a pherthnasol ar gyfer Lefel A ar draws Cymru a Lloegr, tra bo’r canlyniadau TGAU yn parhau’n ddibynadwy a chyson ar draws y ddwy wlad.

11. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr adroddiad ar 10 Medi, datganwyd pryder parhaus gan swyddogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â chymhwyso methodoleg gyffelyb, a oedd yn defnyddio canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 yn Lloegr yn sail ar gyfer rhagfynegi canlyniadau TGAU. Roedd safbwynt swyddogion Llywodraeth Cymru yn eglur o’r dechreuad, sef na ellid ac na ddylid defnyddio methodoleg o’r fath mewn perthynas ag ymgeiswyr yng Nghymru; ac mewn trafodaethau gydag Ofqual yn 2011, dadleuasant yn llwyddiannus na ddylid penderfynu canlyniadau *unrhyw un* o gymwysterau TGAU newydd CBAC (mewn pynciau megis Daearyddiaeth, Hanes ac Ieithoedd Tramor Modern) drwy ddefnyddio canlyniadau Cyfnod Allweddol 2. Tra oedd AQA, Edexcel ac OCR yn penderfynu eu canlyniadau gan ddefnyddio’r fethodoleg honno yn 2011, roedd CBAC yn defnyddio yn hytrach fethodoleg a gynlluniwyd i arddangos canlyniadau sefydlog rhwng cohortau mewn canolfannau gyda chofrestriadau ddwy flynedd yn olynol.

12. Yn gynnar yn 2012, rhybuddiwyd swyddogion Llywodraeth Cymru gan swyddogion Ofqual mai eu bwriad, oherwydd bod CBAC yn cofrestru niferoedd sylweddol o ymgeiswyr o Loegr ar gyfer rhai o’i byncíau craidd TGAU, oedd gwneud yn ofynnol bod CBAC y defnyddio rhagfynegyddion Cyfnod Allweddol 2 i benderfynu’r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer manylebau CBAC. Cynhaliwyd nifer o drafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac Ofqual ynghylch anaddasrwydd y rhagfynegyddion hyn i Gymru. Fodd bynnag, ar 19 Ebrill, heb ddod i gytundeb ymlaen llaw â swyddogion Llywodraeth Cymru, ysgrifennodd Ofqual at CBAC, yn gofyn i’r Cyd-bwyllgor am adroddiad gyferbyn â’r rhagfynegiadau Cyfnod Allweddol 2 , ar gyfer pob cymhwyster TGAU a oedd â mwy na 500 o ymgeiswyr o Loegr. Gwrthwynebwyd hyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru, a oedd yn parhau i fynegi’r safbwynt nad oedd yn briodol penderfynu canlyniadau ymgeiswyr o Gymru ar sail cyrhaeddiad blaenorol ymgeiswyr o Loegr. Fodd bynnag, pan ddaeth yn amlwg mai o Loegr yr oedd mwyafrif sylweddol o ymgeiswyr CBAC ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yn hanu, ac mai’r ymgeiswyr hynny oedd y cofrestriad ail fwyaf o ymgeiswyr o Loegr gan unrhyw gorff dyfarnu, anodd oedd parhau i wrthwynebu defnyddio’r fethodoleg yn achos y pwnc hwnnw. Cytunwyd, felly, y byddai CBAC, ar gyfer ei gyfres o

gymwysterau Saesneg yn unig, yn adrodd am eu canlyniadau disgwyliedig gyferbyn â'r rhagfynegiadau ar sail Cyfnod Allweddol 2.

13. Nid oedd yn amlwg, ar unrhyw adeg yn ystod y trafodaethau cynnar hyn, y byddai defnyddio'r fethodoleg CA2 yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar y canlyniadau i ymgeiswyr yng Nghymru: ni ddaeth yn bosibl dirnad unrhyw effaith o'r fath hyd nes oedd gwaith yr ymgeiswyr wedi ei farcio a dosbarthiad y marciau yn hysbys (sef ar ddiwedd Gorffennaf 2012). Nid oedd dim, ychwaith, i ddynodi na fyddai'r egwyddor canlyniadau cymaradwy yn parhau'n elfen ganolog mewn unrhyw fethodoleg a weithredid i gynnal y safonau ar lefel TGAU. Yn ogystal, roedd cyfathrebiadau Ofqual yn datgan mai 'at ddibenion adrodd yn unig' y defnyddid rhagfynegyddion. Yn y gorffennol, roedd canlyniadau a ddeuai y tu allan i'r hyn a ragfynegid wedi eu derbyn ar sail cyfiawnhad priodol a rhesymol o'r gwahaniaeth rhwng canlyniadau rhagfynegedig a'r canlyniadau gwirioneddol.

**Trafodaethau a gynhaliwyd rhwng y cyfarfod dyfarnu a chyhoeddi'r canlyniadau**

14. Fel rheol penderfynir ar y ffiniau rhwng graddau gan uwch-arholwyr o'r bwrdd arholi, mewn cyfarfod dyfarnu. Mae'r arholwyr yn adolygu amrediad o waith yr ymgeiswyr er mwyn penderfynu lle y dylid gosod nifer o'r ffiniau allweddol rhwng graddau. Gwnânt hynny gan gyfeirio at nifer o ddangosyddion ystadegol. Dros y blynyddoedd diweddar, ar ôl mabwysiadu methodoleg y rhagfynegyddion, mae'r pwysigrwydd a briodolir i'r dangosyddion ystadegol hyn wedi cynyddu.

15. Yng Ngorffennaf 2012, gohiriwyd cyfarfod dyfarnu CBAC ar gyfer TGAU Saesneg Iaith am rai diwrnodau, oherwydd pryderon a godwyd, yn enwedig gan fyrddau arholi eraill, ynglŷn ag anawsterau gyda'r dangosyddion ystadegol. Rhoddir amlinelliad o'r anawsterau hyn ym mharagraffau 34 a 35 o adroddiad 10 Medi. Cynhaliwyd y cyfarfod dyfarnu o'r diwedd ar 27 Gorffennaf, ac arsylwyd arno gan arbenigwr pwnc annibynnol a gontractiwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i rhaglen graffu ar gyfer y cymhwyster hwnnw. Y prynhawn hwnnw, cyn diwedd y cyfarfod, rhybuddiwyd un o swyddogion Llywodraeth Cymru, gan Brif Weithredwr CBAC, fod canlyniadau gradd C ac uwch ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru yn ymddangos yn debygol o fod yn sylweddol is, o gymharu â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol. Ar yr adeg honno, nid oedd yn eglur beth fyddai maint y gwahaniaeth, ond hysbysodd y swyddog hwnnw ei uwch-gydweithwyr. Yn ystod yr un prynhawn, siaradodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru gydag uwch-swyddog o Ofqual er mwyn:

- tynnu sylw at y posibilrwydd y byddai canlyniadau CBAC yn achosi problemau,
- pwysleisio bod defnyddio'r fethodoleg rhagfynegyddion ar gyfer cymhwyster TGAU Saesneg Iaith CBAC yn fater a gytunwyd 'at ddibenion adrodd' yn unig. Byddai hyn yn caniatáu'r rheoleiddwyr i adolygu sut yr oedd canlyniadau CBAC yn cymharu â'r canlyniadau rhagfynegedig. Pe byddai'r broses hon wedi datgelu gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y canlyniadau rhagfynegedig a'r canlyniadau gwirioneddol, yna byddai unrhyw fwlch yn cael ei gau fel arfer drwy ddilyn dull aml-gam o dan weithdrefnau sefydlog, a

- datgan na fyddai'n briodol i ymgeiswyr yng Nghymru gael canlyniadau sylweddol is oherwydd defnyddio'r fethodoleg dan sylw.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan swyddog Ofqual ynglŷn â'r pwyntiau hyn.

16. Ar ddydd Llun 30 Gorffennaf, ar ddiwedd cyfarfod a drefnwyd yn gynharach i drafod materion eraill, cefais wybod gan Brif Weithredwr CBAC fod canlyniadau TGAU Saesneg Iaith ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru yn debygol o fod tua 3.4% yn is na chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol. Gofynnais i'm swyddogion ddarparu briffiad llawn ar y mater erbyn diwedd yr wythnos. Cefais y briffiad hwnnw ar ddydd Gwener 3 Awst. Cyn cyflwyno'r briffiad, roedd fy swyddogion wedi bod mewn cyfarfod ar 31 Gorffennaf ar wahoddiad Ofqual, lle y mynegwyd pryderon gan CBAC a chan fyrddau arholi eraill ynghylch dibynadwyedd y fethodoleg rhagfynegyddion ar gyfer canlyniadau TGAU Saesneg Iaith. Roedd y swyddogion wedi gofyn hefyd am ragor o wybodaeth gan CBAC, ac wedi ei chael. Roedd yr wybodaeth honno yn datgan pryderon ynghylch effaith y fethodoleg rhagfynegyddion ar y canlyniadau ar gyfer Cymru. Dywedodd Prif Weithredwr CBAC fod dyfarniad CBAC ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yn llawer llymach nag y byddai rhagdybiaethau 'canlyniadau cymaradwy' wedi ei ddarparu[2].

17. Roedd y briffiad a gefais gan fy swyddogion ar 3 Awst yn rhestru nifer o esboniadau posibl o'r gostyngiad yn y canlyniadau ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru, gan gynnwys gostyngiad gwirioneddol yn y perfformiad; anawsterau penodol ynglŷn ag ymaddasu i'r gyfran uwch o asesiadau dan reolaeth; a phroblemau gyda dibynadwyedd y fethodoleg rhagfynegyddion. Cefais wybod gan y swyddogion hefyd y byddai'r Canlyniadau TGAU Saesneg Iaith yn destun cyfarfod pellach gydag Ofqual a'r byrddau arholi, ar ddydd Llun 6 Awst.

18. Yn y cyfarfod hwnnw ar 6 Awst, a gynullwyd gan Ofqual ac a oedd yn cynnwys dau swyddog o Lywodraeth Cymru, mynegwyd pryderon gan nifer o fyrddau arholi ynghylch effeithiolrwydd y model rhagfynegyddion. Mynegwyd pryderon gan Ofqual fod canlyniadau dros dro CBAC yn "rhy hael" o gymharu â'r rhagfynegyddion CA2. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn dadlau bod canlyniadau CBAC yn rhy llym yn nhermau canlyniadau cymaradwy ar gyfer Cymru, ac yn pwysleisio ei bod yn ymddangos yn debygol y byddai ymgeiswyr yng Nghymru yn dioddef o ganlyniad i ddefnyddio'r model rhagfynegyddion, y mynegwyd cynifer o bryderon yn ei gylch. Roeddent yn dadlau y dylid ystyried datgymhwyso'r model rhagfynegyddion ar gyfer TGAU Saesneg Iaith. Dywedodd Prif Weithredwr Ofqual nad oedd hi'n barod i wneud hynny, a phenderfynodd y dylai trafodaethau ynghylch canlyniadau CBAC (a chanlyniadau Edexcel a oedd yn achosi problemau cyffelyb) barhau y tu allan i'r cyfarfod.

19. O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, roedd yn amlwg y byddai'n eithafol o anodd cytuno ar set derfynol o ganlyniadau. Fel y nodwyd ym mharagraff 6 uchod, roedd dros 70% o ymgeiswyr CBAC ar gyfer y cymhwyster yn dod o Loegr, ac yr oedd

[2] Yng ngeiriau'r Prif Weithredwr, *"WJEC's award for GCSE English Language provides outcomes for Wales that are considerably more severe than would be delivered under 'comparable outcomes' assumptions"*.

hynny'n gosod Ofqual mewn sefyllfa gref wrth negodi. Dylid nodi hefyd fod pawb, ar y pryd, yn tybio ei bod yn hanfodol pennu un set o ffiniau gradd, ar gyfer y tair gwlad.

20. Ar 7 Awst, parhaodd y trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac Ofqual. Tynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru sylw Cyfarwyddwr Cyffredinol AdAS at ddifrifoldeb y sefyllfa. Erbyn hyn roedd Ofqual yn mynnu y dylai CBAC godi ei ffiniau gradd ar gyfer TGAU Saesneg Iaith, gan fod y canlyniadau dros dro ar gyfer TGAU Saesneg Iaith gradd C 4.1 pwynt canran uwchlaw'r canlyniad a ragfynegwyd ar gyfer ymgeiswyr yn Lloegr drwy ddefnyddio'r fethodoleg rhagfynegyddion. Roedd Ofqual yn datgan yn eglur na fyddai'n derbyn canlyniadau dyfarnu CBAC, a oedd eisoes yn dangos gostyngiad sylweddol ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru.

21. Ar 8 Awst ysgrifennodd Ofqual at CBAC, gan ofyn i'r Cyd-bwyllgor adolygu ei ffiniau gradd a chan rybuddio, os na fyddai'r Cyd-bwyllgor yn gwneud hynny, y byddai'n angenrheidiol wedyn, ym marn Ofqual, anfon hysbysiad o fwriad Ofqual i ddyroddi cyfarwyddyd ar y mater[3].

22. Ar fore'r 9fed o Awst, atebodd CBAC lythyr Ofqual, gan anfon copi o'i ateb at swyddogion Llywodraeth Cymru, a chan ddarparu data ynglŷn â phedwar opsiwn ar gyfer y ffiniau gradd. Amlinellir yr opsiynau hyn yn Atodiad 1 isod. Yr opsiwn cyntaf oedd cadw'r ffiniau a bennwyd yn y cyfarfod dyfarnu, a oedd eisoes yn gosod y canlyniadau gradd C ac uwch ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru 3.3 pwynt canran yn is na'r flwyddyn flaenorol – ond a oedd yn gosod y canlyniadau ar gyfer ymgeiswyr yn Lloegr 4.1 pwynt canran uwchlaw'r rhagfynegiad CA2.

23. Roedd yr ail opsiwn a ddarparwyd gan CBAC yn gostwng y canlyniadau gradd C ac uwch ar gyfer Cymru 0.6 pwynt canran ymhellach islaw canlyniadau'r cyfarfod dyfarnu, ac yn lleihau'r bwlch rhwng y canlyniadau yn Lloegr a'r rhagfynegiadau CA2 i 3.6 pwynt canran. Yr oedd yr opsiwn hwn, fodd bynnag, yn codi'r canlyniadau Gradd A ac uwch ar gyfer Cymru 0.6 pwynt canran yn uwch. Yn ei ymateb i Ofqual, er bod CBAC yn dadlau y dylai canlyniadau'r cyfarfod dyfarnu sefyll, dywedodd CBAC ei fod yn teimlo mai'r opsiwn hwn oedd yr un y gellid cytuno arno, os oedd y rheoleiddwyr ar y cyd o'r farn y dylid gwneud addasiad[4].

24. Roedd y trydydd opsiwn a ddarparwyd gan CBAC yn gostwng y canlyniadau gradd C ac uwch ar gyfer Cymru 1.7 pwynt canran (sef 5 pwynt canran yn is na'r canlyniadau gradd C ac uwch yn 2011) tra'n lleihau'r bwlch rhwng y canlyniadau rhagfynegedig a'r canlyniadau gwirioneddol ar gyfer ymgeiswyr yn Lloegr i 2.8 pwynt canran.

25. Roedd y pedwerydd opsiwn yn gostwng canlyniadau Cymru 2.7 pwynt canran yn is na chanlyniadau'r cyfarfod dyfarnu (sef 6 phwynt canran yn is na'r canlyniadau

[3] Yng ngeiriau'r llythyr: *"[Ofqual would] "consider it necessary to send… a notice of intention to issue a direction on this matter".*

[4] Yng ngeiriau CBAC: *"if regulators' collective view is that an adjustment should be made, we would suggest that [this option] is the one on which we would be able to reach agreement".*

gradd C ac uwch yn 2011) ac yn lleihau'r bwlch rhwng y canlyniadau rhagfynegedig a'r canlyniadau gwirioneddol ar gyfer ymgeiswyr yn Lloegr i 2 bwynt canran.

26. Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod yr opsiynau hyn gydag Ofqual, ac yn dadlau'n gryf y dylid cadw canlyniadau'r cyfarfod dyfarnu, a oedd eisoes yn andwyol i ymgeiswyr yng Nghymru. Roedd yn amlwg erbyn hynny na fyddai Ofqual, ar unrhyw gyfrif, yn derbyn y canlyniadau "cyfarfod dyfarnu". Yr un pryd, ysgrifennodd Ofqual at Edexcel, gan nodi disgwyliad Ofqual y dylai Edexcel hefyd addasu ei ganlyniadau fel eu bod o fewn goddefiant y rhagfynegyddion Cyfnod Allweddol 2. Pe na bai Edexcel wedi cydymffurfio â hynny, dealltwriaeth fy swyddogion oedd y byddai Ofqual wedi symud ymlaen i ddyroddi Cyfarwyddyd i Edexcel. Yn dilyn trafodaethau maith, gydag Ofqual yn parhau i wrthod y canlyniadau "dyfarnu", cytunodd swyddogion Llywodraeth Cymru, yn groes i'w hewyllys, i dderbyn yr opsiwn y cyfeirir ato ym mharagraff 23 uchod, gan wneud yn eglur nad hwnnw oedd eu dewis gorau, ond eu bod yn cydnabod yr angen, erbyn hynny, i gytuno ar set gyffredin o ffiniau gradd.

27. Ar 10 Awst, ysgrifennodd Ofqual at CBAC, gan ofyn i'r Cyd-bwyllgor weithredu'r newidiadau hyn yn ffiniau'r graddau. Mynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru na ddylid anfon y llythyr hwnnw mewn llythyr gyda phennawd y tair gwlad, ond roeddent yn fodlon i'r llythyr nodi bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda swyddogion rheoleiddio Llywodraeth Cymru a bod cytundeb wedi ei gyrraedd.

28. Ar 15 Awst roeddwn mewn cyfarfod gyda swyddogion er mwyn trafod, yn bennaf, y canlyniadau Lefel A, a oedd ar fin eu cyhoeddi; ond rhoddwyd briffiad imi hefyd ar ddigwyddiadau'r wythnos flaenorol ynglŷn â TGAU Saesneg Iaith, ac esboniad pam y bu'n rhaid cyfaddawdu.

29. Cefais fy mriffio ar y canlyniadau TGAU dros dro ar 22 Awst, yn union cyn eu cyhoeddi ar 23 Awst. Daeth yn amlwg yn fuan iawn fod problemau yn codi ynglŷn â'r canlyniadau – nid yn unig o ran y gostyngiad yng nghanlyniadau Cymru, ond hefyd oherwydd amrywiadau tra arwyddocaol mewn perfformiad, rhwng y graddau rhagfynegedig a graddau gwirioneddol y canolfannau. Ar y diwrnod hwnnw, felly, gofynnais i'r swyddogion rheoleiddio gynnal ymchwiliad llawn. Er mwyn sicrhau gwrthrychedd, arweiniwyd yr ymchwiliad gan swyddog na fu'n ymwneud yn uniongyrchol â'r trafodaethau a gynhaliwyd yn gynharach ym mis Awst.

**Trafodaethau a gynhaliwyd rhwng cyhoeddi'r canlyniadau dros dro ac ailraddio cymhwyster CBAC yng Nghymru**

30. Yn fuan wedi imi ysgogi ymchwiliad yng Nghymru, cyhoeddodd Ofqual y byddai yntau yn cynnal ymchwiliad. Galwyd cynhadledd deleffon rhwng y byrddau arholi a'r rheoleiddwyr ar ddydd Mawrth 28 Awst. Roedd y swyddogion a oedd yn arwain ymchwiliad Llywodraeth Cymru yn bresennol yn y gynhadledd. Cawsant gyfle i gyfeirio at pryderon deublyg, sef bod y canlyniadau i ymgeiswyr yng Nghymru wedi gostwng o fwy na'r ganran a fyddai'n rhesymol ar sail yr egwyddor canlyniadau cymaradwy; a bod yr amrywioldeb rhwng canlyniadau'r canolfannau

yn eithafol. Gofynnwyd i'r byrddau arholi ddarparu meintiau helaeth o ddata i Ofqual. Gofynnodd swyddogion Llywodraeth Cymru am gael copïau o'r data hynny, a chytunodd Ofqual i anfon yr wybodaeth ymlaen. Nid anfonodd Ofqual unrhyw ddata ymlaen. Mae fy swyddogion o'r farn dyddiol mai amryfusedd oedd hynny, ond bu rhaid iddynt ofyn am y data gan y byrddau arholi ar wahân.

31. Parhawyd i gynnal cyfarfodydd teleffon rhwng y rheoleiddwyr a'r byrddau arholi, gydag Ofqual yn cadeirio, tan ddydd Iau 30 Awst; ac ar ddydd Gwener 31 Awst cyflwynwyd adroddiad interim gan Ofqual. Ym marn swyddogion Llywodraeth Cymru roedd naws y cyfarfodydd hyn yn dynodi bod Ofqual a'r byrddau arholi yn cytuno â'i gilydd ar safiad amddiffynnol a fyddai'n cadarnhau eu bod wedi gweithredu'n briodol. Mae'n ymddangos mai ychydig neu ddim sylw a roddwyd i'r cwestiwn a oedd y canlyniadau, mewn gwirionedd, yn deg i'r ymgeiswyr. Yn ystod yr wythnos hon, ysgrifennodd swyddogion Llywodraeth Cymru nifer o weithiau at Ofqual i fynegi eu pryderon, ac ar 29 Awst dywedasant:

*"Ar ôl ystyried y canlyniadau TGAU terfynol ar gyfer Cymru, daethom i'r casgliad nad oes modd o gwbl cyfiawnhau nac amddiffyn y bwriad i ganiatáu i ganlyniadau CBAC aros fel y maent. Rydym felly yn bwriadu gofyn i CBAC addasu'r canlyniadau dyfarnu ar gyfer TGAU Saesneg Iaith, gan ddefnyddio ymgeisyddiaeth Cymru yn 2011 yn sail cymharu, gyda goddefiant o 1% ar y graddau C ac A. Mae'r lefel goddefiant hon yn adlewyrchu lefel goddefiant y rheoleiddwyr ar gyfer perfformiad cohort o'r maint hwn gyferbyn â chanlyniadau rhagfynegedig."*[5]

32. Ar ôl anfon y neges e-bost hon at Ofqual cynhaliwyd cyfarfod teleffon byr rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac Ofqual. Dywedodd Ofqual nad oedd yn cytuno â safiad Llywodraeth Cymru ac na fyddai'n gofyn am ailraddio.

33. Ar 29 Awst hefyd, ysgrifennodd swyddogion Llywodraeth Cymru at CBAC, gan ofyn iddo ddarparu modelau posibl ar gyfer ailraddio'r cymhwyster. Atebodd CBAC trwy gynnig tri opsiwn. Y cyntaf ohonynt oedd dychwelyd i ganlyniadau'r cyfarfod dyfarnu, a fyddai'n parhau i olygu gostyngiad ar radd C o 3.3 pwynt canran. Byddai'r ail opsiwn wedi gwella hyn drwy leihau'r gostyngiad i 2.6 pwynt canran. Byddai'r trydydd opsiwn wedi achosi gostyngiad o 1.5 pwynt canran.

34. Rhannodd swyddogion AdAS y data hyn gydag Ofqual, ond unwaith eto ni welwyd arwydd o unrhyw barodrwydd i ystyried ailraddiad o'r fath.

35. Yn ystod yr wythnos ddilynol bu swyddogion AdAS yn paratoi'r adroddiad ar eu hymchwiliad, gan gasglu a chydosod data o nifer o wahanol ffynonellau. Cefais yr adroddiad hwnnw ar fore dydd Llun, 10 Medi. Cymeradwyais ei gyhoeddi a derbyniais ei argymhellion. Un o gasgliadau allweddol yr adroddiad oedd *"nad yw'r*

---

[5] Yng Ngeiriau'r swyddogion: *"In considering the final GCSE outcomes for Wales we have concluded that it is entirely unjustifiable and indefensible to let the WJEC outcomes stand as they are. We therefore intend to ask WJEC to adjust the outcomes of awarding for GCSE English Language using the 2011 Wales candidature as the basis for comparability and with a tolerance of 1% at grades C and A. This level of tolerance reflects the regulators' level of tolerance for performance against predicted outcomes for a cohort of this size."*

*canlyniadau . . . ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru ar gyfer TGAU Saesneg Iaith Gradd C ac uwch . . . yn ddiogel nac wedi eu hategu gan unrhyw gyfiawnhad rhesymol”.* Un o argymhellion canolog yr adroddiad oedd y dylid ailraddio cymhwyster CBAC, ar gyfer pob ymgeisydd o ddewis, ond pe bai Ofqual yn gwrthod cymeradwyo’r ailraddio, ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru yn unig.

36. Cyn ei gyhoeddi, rhannwyd yr adroddiad gyda CBAC, gydag Ofqual a gyda CCEA yng Ngogledd Iwerddon. Cynhaliwyd cynhadledd deleffon ar gais Ofqual, a gofynnodd Ofqual am ohirio cyhoeddi’r adroddiad. Er mwyn bod mewn sefyllfa i weithredu’n gyflym a lleihau effaith andwyol y graddio annheg ar ymgeiswyr yng Nghymru ac oherwydd anfuddioldeb y trafodaethau cynharach gydag Ofqual ar y mater, gwrthodwyd y cais hwnnw.

37. Ar 10 Medi gofynnwyd i CBAC roi ymrwymiad, o fewn 24 awr, y byddai’n ailraddio TGAU Saesneg Iaith. Gan na roddwyd ymrwymiad o’r fath, rhoddais Gyfarwyddyd i CBAC i ailraddio’r cymhwyster o fewn un wythnos. Digwyddodd yr ailraddiad hwnnw o fewn yr amser a ganiatawyd. O ganlyniad, mae 2,386 o ymgeiswyr bellach wedi cael graddau diwygiedig, ac yr wyf yn argyhoeddedig eu bod yn haeddu’r graddau hynny.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

**Hydref 2012**

# Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Ailraddio canlyniadau TGAU Saesneg Iaith CBAC yng Nghymru

Atodiad 1: Opsiynau a gyflwynwyd i'r rheoleiddwyr gan CBAC (gweler paragraff 22)

**Opsiwn 1: Canlyniadau Dyfarnu: Rhagfynegiadau CA2 a'r canlyniadau ar gyfer Lloegr, o'u cymharu â'r rhagfynegiadau "canolfannau cyffredin" a'r canlyniadau ar gyfer Cymru**

| | Cofrestriad | A% | | C% | | F% | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfatebol | Rhagfynegiad | Gwir | Rhagfynegiad | Gwir | Rhagfynegiad | Gwir |
| **Saesneg** | 27517 | 1.2 | 1.7 | 36.1 | 38.8 | 96.7 | 96.3 |
| **Saesneg Iaith** | 65927 | 19 | 19.3 | 77.3 | 81.4 | 99.5 | 99.6 |
| **Cyfunedig – Lloegr** | 93444 | 13.8 | 14.1 | 65.2 | 68.9 | 98.7 | 98.6 |
| **Cymru** | 30247 | 14.3 | 12.2 | 64.6 | 60.4 | 98.7 | 98 |

**Opsiwn 2: Rhagfynegiadau CA2 a'r canlyniadau ar gyfer Lloegr, o'u cymharu â'r rhagfynegiadau "canolfannau cyffredin" a'r canlyniadau ar gyfer Cymru**

| | Cofrestriad | A% | | C% | | F% | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfatebol | Rhagfynegiad | Gwir | Rhagfynegiad | Gwir | Rhagfynegiad | Gwir |
| **Saesneg** | 27517 | 1.2 | 1.7 | 36.1 | 35.3 | 96.7 | 96.2 |
| **Saesneg Iaith** | 65927 | 19 | 20 | 77.3 | 80.9 | 99.5 | 99.6 |
| **Cyfunedig – Lloegr** | 93444 | 13.8 | 14.6 | 65.2 | 67.5 | 98.7 | 98.6 |
| **Cymru** | 30247 | 14.3 | 12.8 | 64.6 | 59.7 | 98.7 | 98.3 |

**Opsiwn 3: Rhagfynegiadau CA2 a'r canlyniadau ar gyfer Lloegr, o'u cymharu â'r rhagfynegiadau "canolfannau cyffredin" a'r canlyniadau ar gyfer Cymru**

| | Cofrestriad | A% | | C% | | F% | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfatebol | Rhagfynegiad | Gwir | Rhagfynegiad | Gwir | Rhagfynegiad | Gwir |
| **Saesneg** | 27517 | 1.2 | 1.7 | 36.1 | 35.3 | 96.7 | 96.2 |
| **Saesneg Iaith** | 65927 | 19 | 18.9 | 77.3 | 80.1 | 99.5 | 99.6 |
| **Cyfunedig – Lloegr** | 93444 | 13.8 | 13.8 | 65.2 | 66.9 | 98.7 | 98.6 |
| **Cymru** | 30247 | 14.3 | 11.9 | 64.6 | 58.6 | 98.7 | 98.3 |

**Opsiwn 4: Rhagfynegiadau CA2 a'r canlyniadau ar gyfer Lloegr, o'u cymharu â'r rhagfynegiadau "canolfannau cyffredin" a'r canlyniadau ar gyfer Cymru**

| | Cofrestriad | A% | | C% | | F% | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfatebol | Rhagfynegiad | Gwir | Rhagfynegiad | Gwir | Rhagfynegiad | Gwir |
| **Saesneg** | 27517 | 1.2 | 1.6 | 36.1 | 35.3 | 96.7 | 96.2 |
| **Saesneg Iaith** | 65927 | 19 | 18.9 | 77.3 | 79.3 | 99.5 | 99.6 |
| **Cyfunedig – Lloegr** | 93444 | 13.8 | 13.8 | 65.2 | 66.3 | 98.7 | 98.6 |
| **Cymru** | 30247 | 14.3 | 11.9 | 64.6 | 57.6 | 98.7 | 98.2 |

**Papur Tystiolaeth Prif Swyddog Meddygol Cymru i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

**Iechyd a Lles Plant**

Mae'n rhaid i ni greu amodau fel y gall y 962,000 o blant a phobl ifanc sydd yng Nghymru fod yn hapus, yn ddiogel ac yn iach. Yng ngwaith ymchwil yr Athro Marmot ac eraill ceir tystiolaeth glir o bwysigrwydd ymyrryd yn y blynyddoedd cynnar i leihau anghydraddoldebau iechyd ac i roi dechrau da mewn bywyd i blant.

Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar helpu plant sy'n byw o dan bob math o amgylchiadau i fwynhau bywyd iach yn ogystal â sicrhau'r cymorth cywir ar gyfer plant sydd â chyflyrau hirdymor. Mae'n rhaid i'r symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion fod yn esmwyth, gan ganolbwyntio ar yr unigolyn. Rhaid mynd ati mewn ffordd sy'n integreiddio polisïau trwy gydol bywyd, gan wireddu hawl pob plentyn unigol i gael yr iechyd gorau posibl.

Mae'n hysbys bod sylfeini iechyd a lles yn cael eu gosod ym mlynyddoedd cyntaf bywyd fel y nodir yn adroddiadau Marmot[1], Field[2] ac Allen[3]. Mae llawer o brif bolisïau'r llywodraeth yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar, er enghraifft Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a'r Cyfnod Sylfaen. Yn yr un modd, mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn nodi bod y blynyddoedd cynnar yn sylfaenol i ddatblygiad plant. Ceir consensws y gallwn fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella iechyd a lles plant trwy ganolbwyntio ar ymyrryd yn y blynyddoedd cynnar. Byddaf yn ymroi i adeiladu ar y polisïau cryf a'r nodau craidd sydd eisoes yn eu lle.

Mae'n hanfodol darparu amgylcheddau iachus i blant a'u hannog i gael digon o ymarfer corff er mwyn sicrhau'r iechyd gorau iddynt. Mae Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru 2011 yn rhoi darlun o iechyd cyffredinol ein plant. Mae smygu, y defnydd o alcohol a gordewdra yn ddangosyddion o iechyd y genedl yn y dyfodol ac yn farcwyr anghydraddoldebau iechyd. Yn ôl Monitor 2011, mae mwy o ferched nag o fechgyn 15 oed yn smygu ond mae'r lefelau wedi bod yn disgyn ers iddynt gyrraedd uchafbwynt ymhlith merched a bechgyn tua diwedd y 1990au. Mae ymgyrchoedd gwrth-ysmygu cryf ar y gweill eisoes ac rydym yn cymryd rhan yn yr ymgynghoraid ar becynnau plaen. Yn ogystal, mae'n rhaid i ni amddiffyn ein plant rhag peryglon mwg ail law a byddaf yn cadw llygad barcud ar ymgyrch Cychwyn Iach Cymru.

Mae data o'r arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol[4] yn dangos bod tuag 14% o fechgyn a merched 13 oed (tuag un o bob saith), a 32% (un o bob tri yn gyffredinol) o fechgyn a merched 15 oed yn dweud eu bod yn yfed rhyw ddiod feddwol bob wythnos. Er bod y ffigurau hyn yn dangos

---

1 'Fair Society Health Lives' yr Athro Syr Michael Marmot 2008
2 The Foundation Years: preventing poor children becoming poor adults Frank Field 2010
3 Early Intervention: The Next Steps Graham Allen 2011
4 Astudiaeth Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (HBSC) study: adroddiad rhyngwladol o astudiaeth 2009/2010. 2012. Copenhagen, Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd yn Ewrop.

gostyngiad, mae Cymru'n dal mewn grŵp o wledydd sydd â'r cyfraddau uchaf o bobl ifanc yn eu harddegau'n defnyddio alcohol. Mae *Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru: Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed 2008-18* yn cyflwyno'r camau y mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn eu cymryd i leihau'r defnydd o alcohol, er enghraifft Rhaglen Cryfhau Teuluoedd 10-14 sy'n rhaglen ymyrryd ar gyfer plant a'u rhieni neu eu gofalwyr er mwyn atal camddefnyddio sylweddau. Mae ail ran y cynllun yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc.

Mae Arolwg Iechyd Cymru (2011) yn dangos bod tuag un o bob tri phlentyn yng Nghymru a dros hanner yr oedolion yn rhy drwm a bod llai nag un o bob tri oedolyn a dim ond 52% o'r plant yn dweud eu bod yn cael cymaint o ymarfer corff ag yr argymhellir bob dydd. Mae gennym nifer o gynlluniau ar waith eisoes, e.e. Rhaglen Atgyfeirio ar gyfer Plant Gordew, Rhwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach, ymgyrchoedd iechyd blynyddol a, dros yr haf eleni, ymunodd 8,500 o deuluoedd â'r ymgyrch Gemau am Oes a oedd yn defnyddio'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd i annog teuluoedd i bennu a chyflawni targedau wythnosol ar gyfer ymarfer corff er lles eu hiechyd. Mae'n rhaid i ni barhau i weithredu mewn ffordd gydgysylltiedig i fynd i'r afael â maes cymhleth gordewdra mewn plant. Rwyf wedi rhoi rhagor o fanylion ar y mater hwn isod.

Mae'n rhaid i anghenion iechyd ein plant mwyaf bregus barhau'n uchel ar ein rhestr flaenoriaethau. Mae gwasanaethau i rai ag anableddau, cyflyrau iechyd hirdymor a rhai sydd mewn amgylchiadau arbennig wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Gwelir hyn yn y gwelliannau a gofnodwyd yng nghamau allweddol y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol. Rhaid i ni geisio sicrhau gwelliant parhaus yn y maes hwn, yn enwedig pan fydd plant yn dechrau dod yn oedolion, er mwyn sicrhau bod y cyfnod pontio'n llwyddiannus wrth i ffiniau'r gwasanaethau newid.

Mae gan Lywodraeth Cymru sylfeini cadarn yn y meysydd hyn i gyd ac mae ystod eang o bolisïau a chamau i'w cymryd wedi'u sefydlu eisoes. Nid y gwasanaethau iechyd yn unig sy'n gyfrifol am sicrhau bod plant yn hapus, yn ddiogel ac yn iach. Mae'n hanfodol ein bod yn dal i weithio mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau bod holl bolisi'r llywodraeth yn gydlynol, yn gydgysylltiedig, yn realistig ac, yn bwysicaf oll, ei fod yn hyrwyddo hawliau'r plentyn trwy ddangos gwell canlyniadau bywyd ar gyfer plant Cymru, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Fe wnaethoch chi ofyn i mi roi gwybodaeth am feysydd penodol ac rwyf wedi nodi'r wybodaeth am y rhain isod.

**Anghydraddoldebau Iechyd ymhlith Plant**

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant i'w weld yn glir yn y Strategaeth Tlodi Plant. Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd yn elfen allweddol yn Law yn Llaw at Iechyd. Mae Law yn Llaw at Iechyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd bennu targedau clir a chyflawni yn eu herbyn er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae rhaglenni

blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru, yn enwedig Dechrau'n Deg, yn dangos yr awydd i leihau anghydraddoldebau trwy dargedu'r teuluoedd mwyaf difreintiedig ar gyfer eu cefnogi. Gellir cyflawni llawer trwy dargedu rhaglenni'n effeithiol.

Mae data cyfrifiad Plant mewn Angen yn dangos bod iechyd Plant mewn Angen a Phlant sy'n Derbyn Gofal gryn dipyn yn waeth nag iechyd plant eraill. Diffinnir Plant mewn Angen fel rhai sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol gan eu hawdurdodau lleol, yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, a rhai oedd ag achos yn agored ers o leiaf dri mis ar ddyddiad y cyfrifiad. Er enghraifft, mae'r cyfrifiad yn dangos mai 76% o Blant mewn Angen pedair oed oedd wedi cael eu holl frechiadau yn 2010-2011, o'i gymharu ag 81% o blant nad oeddent 'mewn angen'. Mae angen i ni sicrhau bod ein rhaglenni'n cael eu targedu a'u bod yn cynnwys y plant hyn.

Mae gordewdra yn un o farcwyr lefelau cyffredinol iechyd ac anghydraddoldeb ymhlith plant. Ceir tystiolaeth glir bod angen targedu adnoddau i fynd i'r afael â gordewdra mewn plant. Yn ôl y cofnodion, mae tuag un o bob pump o blant 11, 13 a 15 oed yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew ac mae'r gyfradd yn uwch ymhlith bechgyn na merched. Mae Cymru mewn clwstwr o wledydd sydd â chyfraddau gordewdra mewn plant ymhlith yr uchaf, yn ôl astudiaeth ryngwladol Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol, yn uwch na'r Alban a Lloegr. Roedd y sefyllfa'n debyg yn 2001/02 a 2005/06 ac felly mae angen gweithredu. Rydym yn cymryd camau i wella'r wybodaeth sydd gennym wrth fonitro gordewdra ymhlith plant. Bydd y Rhaglen Mesur Plant a gyflwynwyd yn ddiweddar yn ffynhonnell ddata allweddol yn y dyfodol, gan ddefnyddio taldra a phwysau plant a fesurir yn y flwyddyn dderbyn (4/5 oed).

Gwn fod nifer o wahanol bolisïau a chynlluniau eisoes ar waith. Mae MEND – Mind, Exercise, Nutrition... Do It! – o dan gontract i gyflenwi rhaglen atgyfeirio ar gyfer plant gordew ledled Cymru. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd MEND yn darparu o leiaf 140 o raglenni ar gyfer o leiaf 1500 o blant sydd dros bwysau neu'n ordew a'u teuluoedd.

Mae gan Newid am Oes ymgyrch farchnata gref i helpu pobl Cymru i gyrraedd pwysau iachus a chadw yno; i fwyta'n iach, i symud mwy ac i fyw'n hirach. Mae Rhaglen Genedlaethol Bwydo ar y Fron, sy'n cynnwys Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF, Grwpiau Cyfeillion Cefnogol Bwydo ar y Fron, a Chynllun Croeso i Fwydo ar y Fron ar waith gan fod peth tystiolaeth fod babanod nad ydynt yn cael eu bwydo ar y fron yn fwy tebygol o fod yn ordew yn nes ymlaen yn eu plentyndod. Mae Cychwyn Iach yn gynllun statudol ledled y DU sy'n cynnig rhwyd ddiogelwch o ran bwyd maethlon i dros 23,000 o gartrefi yng Nghymru. Mae'n gynllun sy'n dibynnu ar brawf modd ac sy'n darparu talebau ar gyfer merched beichiog a phlant cymwys (rhwng un a phedair oed) i'w gwario ar lefrith, llaeth powdwr i fabanod, a ffrwythau a llysiau ffres neu wedi rhewi. Yn ogystal, mae'r Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru yn bartneriaethau iechyd ac addysg sy'n cyflogi ymarferwyr i gydweithio'n uniongyrchol ag ysgolion i'w helpu i edrych mewn ffordd gyfannol ar nifer o bynciau iechyd, fel bwyd a ffitrwydd. Hefyd, mae'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cyfethol y Farwnes Tanni

Grey-Thompson i arwain Grŵp Gorchwyl a Gorffen bach, penodol, i baratoi argymhellion ymarferol ynglŷn a'r ffordd y gall ysgolion annog plant a phobl ifanc i gael mwy o ymarfer corff.

Mae lles emosiynol plant yr un mor bwysig â'u hiechyd corfforol. Mae pobl ifanc sy'n dweud nad ydynt yn fodlon â bywyd yn aml yn llai 'iach' ac yn fwy tebygol o beidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol ac o gael eu gwahardd o'r ysgol. Erbyn hyn, mae gan Gymru rwydwaith o wasanaethau cwnsela mewn ysgolion ledled y wlad i hybu lles meddyliol mewn ysgolion. Nod Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yw lleihau effaith problemau iechyd meddwl a salwch meddwl ar yr economi a'r gymdeithas yng Nghymru. Mae'r ddogfen newydd a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac maent yn pennu camau penodol er mwyn gwella gwydnwch plant a phobl ifanc.

Yn amlwg, mae amrediad eang o gamau wedi'u trefnu ac mae angen i ni sicrhau eu bod yn cael eu cydgysylltu a'u mesur a'u bod yn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer plant o bob cefndir.

**Gofal Iechyd Parhaus a'r Cyfnod Pontio i Ofal Iechyd Oedolion**

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi Canllawiau ar gyfer Gofal Parhaus i Blant a Phobl Ifanc yn ystod y mis nesaf. Bydd hyn yn helpu Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol a'u partneriaid i asesu a gweithredu pecynnau gofal pwrpasol ar gyfer plant a phobl ifanc nad yw gwasanaethau cyffredinol na gwasanaethau arbenigol, ar eu pen eu hunain, yn gallu diwallu eu hanghenion. Byddwn yn sicrhau bod y canllawiau'n cael eu gweithredu'n effeithiol trwy drefnu rhaglen hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth.

Mae'r daith trwy'r glasoed yn wahanol i bob person ifanc a gall fod yn daith anodd. Gall fod yn arbennig o anodd os yw byd plentyn yn newid dim ond am ei fod yn cael pen blwydd. Mae hyn yn arbennig o wir am blant sydd ag anghenion iechyd parhaus oherwydd, yn aml, y rhain sydd fwyaf agored i niwed ac sy'n dibynnu fwyaf ar gyfuniad o wasanaethau iechyd, cymdeithasol ac addysg. Hoffwn weld gwasanaethau'n cael eu cydgysylltu'n well i helpu plant trwy'r cyfnod o newid i wasanaethau oedolion. Bydd y canllawiau'n help i sicrhau gwelliant, ond mae'n rhaid i ni ofalu cael gwasanaeth cydlynol gydag amcanion cyffredin i helpu pobl ifanc ac oedolion ifanc.

**Gweithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant**

Mae gan y Fframwaith 21 o safonau trawsbynciol a 203 o gamau gweithredu allweddol penodol a mesuradwy sy'n pennu ansawdd y gwasanaethau y mae gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd hawl i'w disgwyl a'u derbyn. Gwnaed cynnydd da yn y gwaith o weithredu'r Fframwaith dros y 5 mlynedd hyd at 2011, yn enwedig ym meysydd Gwasanaethau Mamolaeth, Gwasanaethau ar gyfer Plant Anabl a Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Plant a'r Glasoed. Mae 147 o'r 203 o gamau allweddol (72%) wedi gwella rhwng 2006 a 2011, gydag 89 (44%) yn cael y sgôr uchaf o 6, o'i gymharu â 46 (23%) yn 2006. Ni

chafwyd newid ym 51 o'r camau allweddol ac mae 5 wedi gwaethygu, sy'n dangos bod angen canolbwyntio ar wella'r gwasanaeth yn y meysydd hyn.

Ar ôl 7 mlynedd o'r Fframwaith, bu cryn dipyn o newid yn natur a phwyslais polisi Llywodraeth Cymru ar wasanaethau plant. Er enghraifft, erbyn hyn, ceir cynllun gweithredu ar wahân ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion, mae rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn ehangu, bwriedir mynd ati mewn ffordd wahanol i ddiwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac fe geir Strategaeth Gwasanaethau Mamolaeth ar wahân. Oherwydd hyn i gyd, nid yw'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn cynnig un darlun cynhwysfawr o bolisi cyfredol Llywodraeth Cymru ar wasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae angen adolygu'r Fframwaith a datblygu rhaglen sy'n canolbwyntio fwy ar ganlyniadau er mwyn sicrhau bod y camau a gymerir ym maes Iechyd Plant yn gydgysylltiedig.

**Triniaeth Amserol i Blant**

Mae'n hollbwysig bod plant yn cael diagnosis a thriniaeth amserol.

Rydym yn sylweddoli bod mwy o waith i'w wneud yma, yn enwedig o ran gwneud diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD). Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydnabod bod diagnosis ASD yn fater cymhleth sy'n gofyn am asesiadau arbenigol, amlasiantaeth, a bod hyn yn gallu cymryd amser.

Serch hynny, ni ddylai fod angen aros am asesiad neu ddiagnosis ffurfiol bob amser cyn cael cymorth a byddem yn disgwyl i weithwyr proffesiynol sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael cymorth addas ar amser priodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i hybu gwelliannau mewn gwasanaethau a chymorth cyn ac ar ôl diagnosis. Mewn partneriaeth â Chanolfan Ymchwil i Awtistiaeth Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau grant gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol i symud ymlaen â gwaith ym maes diagnosio plant. Sicrhawyd bron £200,000 yn cynnwys arian cyfatebol i sefydlu rhwydwaith o arbenigedd a mentora ac i hwyluso newidiadau i systemau cyfundrefnol i helpu i ddiagnosio plant.

Yn ogystal, rydym wedi rhoi cymorth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gynnal prosiect peilot yng Ngogledd Cymru gyda'r nod o ddatblygu dull safonedig o gofnodi gwybodaeth ynghylch diagnosis ASD. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried canfyddiadau'r astudiaeth beilot hon.

I grynhoi, rydym yn symud ymlaen ac mae'r canlyniadau'n gwella. Mae gennym eisoes lawer o bolisïau a rhaglenni ar waith i wella iechyd a lles plant yng Nghymru. Wrth i amgylchiadau cymdeithasol newid, mae'n rhaid i ni ymateb i'r newidiadau yn anghenion plant a'u teuluoedd, gan ganolbwyntio ar wella'n barhaus er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer plant.